

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

47/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

11/10/2022

Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Papur Datblygu'r Gweithlu

Papur atodol i'r adroddiad llawn

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80364-968-9

Teitl: Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau
Niwroddatblygiadol: Papur Datblygu'r Gweithlu
Isdeitl: Papur atodol i'r adroddiad llawn

Awdur: Dr Duncan Holtom

Holtom, D ac S Lloyd-Jones (2022). *Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Papur Datblygu'r Gweithlu (Papur atodol i'r adroddiad llawn)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 47/2022
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/adolygiad-o-wasanaethau-niwroddatblygiadol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Gweithredoedd y gweithlu i gefnogi cynigion ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol yn y dyfodol	7
3. Cyfeiriadau	27

Rhestr o dablau

Tabl 2.1. Cyflenwad a Siâp y Gweithlu: materion a chatau gweithredu.....	7
Tabl 2.2. Gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac iach: materion a chatau gweithredu	10
Tabl 2.3. Denu a Recriwtio: materion a chatau gweithredu	13
Tabl 2.4. Modelau gweithlu di-dor: materion a chatau gweithredu	15
Tabl 2.5. Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol: materion a chatau gweithredu	18
Tabl 2.6. Addysg a Dysgu Rhagorol: materion a chatau gweithredu	21
Tabl 2.7. Arweinyddiaeth ac Olyniaeth: materion a chatau gweithredu	24

Rhestr Termiau

Byrfodd	Diffiniad
ADHD	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
ASD	Anhwylder Sbectrwm Awtistig (cyfeirir ato hefyd fel Cyflwr Sbectrwm Awtistig ac awtistiaeth)
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
ALI	Awdurdod/Awdurdodau Lleol
BILI	Bwrdd Iechyd Lleol
NDWSP	Platfform Niwroamrywiaeth Cymru (proffiliwr Do-It yn flaenorol)
NICE	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal
RCPsych	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
RCSLT	Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
LLIBPhI	Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc

1. Cyflwyniad

1.1 Yng nghanol y 2010au, cafodd dau wasanaeth niwroddatblygiadol cenedlaethol newydd, gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r gwasanaeth awtistiaeth integredig, eu sefydlu ym mhob bwrdd iechyd lleol (BILI). Er gwaethaf y buddsoddiad yn y ddau wasanaeth newydd hyn, maent wedi cael trafferth ateb y galw am asesiad diagnostig a chymorth. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o'r galw, capasiti a chynllun gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru er mwyn datblygu argymhellion ac opsiynau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth ar gyfer gwelliannau i wasanaethau. Mae dull a methodoleg yr adolygiad, ei ganfyddiadau a'i argymhellion, gan gynnwys cynigion ar gyfer modelau gwasanaethau niwroddatblygiadol, wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad llawn¹. Mae'r papur atodol hwn yn mynd i'r afael ag amcan terfynol yr adolygiad: "datblygu strategaeth y gweithlu i gefnogi cynigion ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol yn y dyfodol".

1.2 Mae'r papur datblygu'r gweithlu hwn i gynorthwyo cynigion ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol yn y dyfodol yn seiliedig ar y Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru, 2020) a'r cynigion ar gyfer cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru, 2021). Cafodd canfyddiadau o gam cyntaf ac ail gam yr adolygiad, ynghyd â chyfweiliadau a thrafodaethau ag aelodau o Lywodraeth Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) eu defnyddio i nodi:

- y materion allweddol (mewn perthynas â datblygu'r gweithlu);
 - y camau gweithredu yn y Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n arbennig o berthnasol i'r materion hyn;
- a

¹ Mae'r adroddiad llawn a'r adroddiad cryno ar yr adolygiad ar gael yn [Adolygiad o Wasanaethau Niwroddatblygiadol](#)

- y camau gweithredu ychwanegol a nodwyd gan yr adolygiad sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion hyn.

1.3 Mae'r dull hwn yn cydnabod er nad yw gwasanaethau niwroddatblygiadol yn wasanaethau iechyd meddwl yn hynny o beth, mae ganddynt gysylltiadau â gwasanaethau iechyd meddwl ac elfennau cyffredin â nhw a bod llawer o'r materion allweddol ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol, fel heriau ynghylch recriwtio a chadw, yn debyg i'r materion allweddol ar gyfer gwasanaethau iechyd eraill. Yn ogystal, fel gwasanaeth integredig, mae angen i strategaeth y gweithlu ar gyfer y gwasanaeth awtistiaeth integredig – a hefyd unrhyw wasanaethau niwroddatblygiadol integredig newydd a fydd yn cael eu creu yn y dyfodol - ystyried y gweithluoedd iechyd a chymdeithasol. Felly, mae llawer o'r camau yn y strategaethau gweithlu iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl yn berthnasol i wasanaethau niwroddatblygiadol (e.e. mynd i'r afael â materion ynghylch llwyth gwaith a chydabyddiaeth, i gynorthwyo recriwtio a chadw). Serch hynny, mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod materion a chamau gweithredu sy'n benodol i wasanaethau niwroddatblygiadol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y strategaethau hyn.

1.4 O ystyried yr elfennau cyffredin ac i sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â strategaethau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol presennol ac arfaethedig, mae'r papur datblygu'r gweithlu hwn i gefnogi cynigion ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol yn y dyfodol yn defnyddio'r nodau a'r saith thema yn Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel fframwaith trefnu. Y rhain yw:

1. 'Gweithlu sy'n Ymgysylltu, yn Llawn Cymhelliant ac yn Iach';
2. 'Denu a Recriwtio';
3. 'Modelau Gweithlu Di-dor';
4. 'Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol';
5. 'Addysg a Dysgu Rhagorol';
6. 'Arweinyddiaeth ac Olyniaeth'; a
7. 'Cyflenwad a Siâp y Gweithlu' (ibid).

1.5 Ar gyfer pob un o'r themâu hyn, mae tablau 2.1-2.7 yn amlinellu:

- y materion allweddol a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol;
- y camau gweithredu yn y Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n arbennig o berthnasol i'r materion hyn; a
- y camau gweithredu ychwanegol a nodwyd gan yr adolygiad i fynd i'r afael â'r materion hyn.

1.6 Oherwydd bod y themâu ynghylch 'cyflenwad a siâp y gweithlu', 'denu a recriwtio'; a 'gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac iach', yn gysylltiedig, mae rhywfaint o orgyffwrdd yn y camau gweithredu sydd eu hangen. Er enghraifft, gall camau gweithredu i hyrwyddo llesiant y gweithlu a chyfleoedd dilyniant, hefyd gefnogi denu a recriwtio.

2. Gweithredoedd y gweithlu i gefnogi cynigion ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol yn y dyfodol

Tabl 2.1. Cyflenwad a Siâp y Gweithlu: materion a chamau gweithredu

Nod: sicrhau gweithlu niwroddatblygiadol cynaliadwy mewn niferoedd digonol i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020).		
Materion allweddol a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol	Mae'r camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl presennol arfaethedig sy'n cefnogi hyn yn cynnwys:	Mae camau gweithredu eraill a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol yn cynnwys:
<ul style="list-style-type: none"> Fel gwasanaethau bach, arbenigol, amlddisgyblaethol, nid oes un llwybr hyfforddi unigol ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol – ac nid oes llwybrau hyfforddi penodedig. Nododd staff y gwasanaeth awtistiaeth integredig mewn ymchwil gynharach fod ‘awtistiaeth yn arbenigedd ynddi ei hun’ a bod y gweithlu â sgiliau awtistiaeth yn fach, gyda staff, yn nodweddiadol yn dysgu'r sgiliau drwy brofiad, yn hytrach na hyfforddiant ffurfiol (LIC, 2019). 	<ul style="list-style-type: none"> ‘Cynyddu comisiynu blynyddol niferoedd addysg a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r gweithlu iechyd meddwl arbenigol [gan gynnwys seicolegwyr a seiciatryddion], am y tair blynedd nesaf’ (t.8., Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021). 	<ul style="list-style-type: none"> Newid hyfforddiant gweithwyr proffesiynol, fel therapyddion lleferydd ac iaith, i adeiladu eu sgiliau a'u hyder wrth weithio gyda phobl niwroamrywiol, a'u galluogi i wneud mwy o gyfraniad at wasanaethau niwroddatblygiadol (gweler e.e. Mullis, 2021) Gallai ailstrwythuro timau staff gwasanaeth niwroddatblygiadol a/neu ddatblygu gwasanaethau newydd, fel gwasanaethau ADHD oedolion neu hybiau ADHD mewn gofal sylfaenol, gynyddu'r amrywiaeth o weithwyr

<ul style="list-style-type: none"> • Yn ogystal, nid yw niwroamrywiaeth bob amser yn cael ei gwmpasu'n ddigonol mewn hyfforddiant cychwynnol i weithwyr proffesiynol fel therapyddion lleferydd ac iaith (Mullis, 2021). • Mae recriwtio a chadw staff clinigol medrus a phrofiadol yn heriol i lawer o wasanaethau niwroddatblygiadol. Mae hyn yn cyfrannu at freuder gwasanaethau ac mae'n golygu bod cynyddu capasiti drwy ehangu maint timau staff gwasanaeth niwroddatblygiadol yn debygol o fod yn heriol. • Mae maint bach gwasanaethau niwroddatblygiadol yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer dilyniant a datblygu staff mewn gwasanaethau, sy'n cyfrannu at gyfyngiadau o ran cyflenwad y gweithlu. • Bydd nifer o opsiynau ar gyfer datblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol, fel gwasanaeth niwroddatblygiadol oedolion neu bob oed, yn golygu y bydd angen i 		<p>proffesiynol sy'n cyfrannu (gan gynyddu maint posibl y gweithlu niwroddatblygiadol). Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol dadansoddi'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer rolau/swyddogaethau gwahanol (fel rhoi diagnosis o awtistiaeth a/neu ADHD) ac yn nodi pa grwpiau proffesiynol allai gymryd mwy o ran, er mwyn cynyddu capasiti, hyblygrwydd, a/neu ansawdd (Young, et al, 2021). Mae'r adolygiad yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, AaGIC, byrddau iechyd lleol, gwasanaethau niwroddatblygiadol, nifer o Golegau Brenhinol, fel Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (RCPsych) ac RCSLT yn ystyried canllawiau NICE ar gyfer rhoi asesiad a diagnosis o ASD ac ADHD a'r hyfforddiant, strwythur a goblygiadau o ran y gweithlu gwasanaeth niwroddatblygiadol wedi'i ail-lunio ar gyfer plant. Byddai dod â staff newydd i mewn</p>
---	--	--

<p>siâp a maint y gweithlu niwroddatblygiadol newid (os caiff yr opsiwn ei ddatblygu). Byddai cynigion i ailstrwythuro timau niwroddatblygiadol presennol drwy, er enghraifft, ddod â mwy o therapyddion, ymarferwyr nyrsio arbenigol a seicolegwyr cynorthwyol, hefyd yn newid siâp a maint y gweithlu niwroddatblygiadol.</p>		<p>i dimau yn creu goblygiadau i lywodraethu corfforaethol a sicrhau ansawdd, y gellid ei ystyried yn genedlaethol drwy weithgor newydd i ddatblygu safonau a chanllawiau newydd ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol plant.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall ehangu, ailstrwythuro ac amrywiaethu timau staff gwasanaeth niwroddatblygiadol helpu i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dilyniant mewn gwasanaethau (gan helpu i ehangu gweithlu'r gwasanaeth niwroddatblygiadol, a galluogi gwasanaethau niwroddatblygiadol i 'feithrin eu gweithlu eu hunain', drwy recriwtio staff amhrofiadol, ac yna eu hyfforddi a'u huwchgilio).
---	--	---

Tabl 2.2. Gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac iach: materion a chamau gweithredu

Nod: gweithlu niwroddatblygiadol sy'n 'teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi' (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020).		
Materion allweddol a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol	Mae'r camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl presennol arfaethedig sy'n cefnogi hyn yn cynnwys:	Mae camau gweithredu eraill a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol yn cynnwys:
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r adolygiad yn nodi bod y bwch rhwng y galw a'r capasiti, ynghyd ag effaith y pandemig, wedi tanseilio llesiant a morâl staff y gwasanaeth niwroddatblygiadol, a chynyddu llwythi gwaith; ac mae'r ffocws ar asesiadau diagnostig wedi golygu bod 'dim lle' i waith a allai fod yn werth chweil i gynorthwyo plant, oedolion neu deuluoedd. Yn ogystal, mae rhestrau aros hir wedi gadael llawer o deuluoedd yn ddig ac nid ydynt yn gwerthfawrogi gwasanaethau niwroddatblygiadol (gan danseilio morâl staff ymhellach). Mae heriau ynghylch recriwtio, cadw ac absenoldeb staff, yn cynyddu'r pwysau ar 	<ul style="list-style-type: none"> Comisiynu arolwg o'r gweithlu iechyd meddwl ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, i asesu ymgysylltu, profiad a llesiant staff.' (t 11, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021) 'Sefydlu Uned Cymorth Proffesiynol cenedlaethol ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl' (t12, ibid.) 	<ul style="list-style-type: none"> Camau i gau bylchau rhwng y galw a'r capasiti a gwella mynediad at gymorth a chefnogaeth (i wella profiadau defnyddwyr gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar wasanaethau niwroddatblygiadol a'u staff). Rheoli perfformiad gwasanaethau niwroddatblygiadol yn fwy deallus, i symud i gyfres ehangach o fesurau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amseroedd aros (gan fod y ffocws ar dargedau amser aros, na all gwasanaethau eu bodloni, yn dorcalonnus i staff, yn canolbwyntio sylw BILI ar anawsterau gwasanaeth, ac yn methu nodi cyfraniadau gwasanaethau niwroddatblygiadol at wella llesiant pobl).

<p>staff ac yn cael effeithiau negyddol ar lesiant staff. Mae hyn yn ei dro yn bygwth cynaliadwyedd gwasanaethau (e.e. os bydd staff medrus a phrofiadol, y bydd yn anodd cael staff newydd yn eu lle, yn gadael).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw gwasanaethau niwroddatblygiadol plant yn cyd-fynd yn hawdd â strwythurau BILI (e.e. mae rhai o fewn iechyd meddwl, eraill o fewn cyfarwyddiaethau plant a menywod). Mae hyn, ynghyd â'u maint bach, a thangyllido wedi gadael llawer o staff yn teimlo eu bod yn gweithio i'r hyn a ddisgrifiwyd gan rai fel 'gwasanaeth Cinderella'. • Nododd staff mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol wendid o ran cymorth, datblygiad proffesiynol parhaus a llwybrau gyrfa/dilyniant mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol. • Nododd staff y gwasanaeth awtistiaeth integredig fod gwahaniaethau o ran 		<ul style="list-style-type: none"> • Fel yr amlinellwyd yn nhabl 2.1, gallai ailstrwythuro gwasanaethau niwroddatblygiadol ddarparu mwy o gyfleoedd dilyniant i staff o fewn gwasanaethau niwroddatblygiadol. • Cyllid ac ymrwymadau staffio tymor hwy, er mwyn sicrhau, er enghraifft, fod staff ar gcontractau parhaol, yn hytrach na rhai cyfnod penodol, a bod eu cyflog yn gymesur i'w rolau a'u cyfrifoldebau.
---	--	--

<p>cyflog, telerau ac amodau rhwng saff iechyd a gofal cymdeithasol (mewn gwasanaethau awtistiaeth integredig) a rhwng staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol gwahanol yn gallu achosi drwgdeimlad. Mae rhai gwasanaethau awtistiaeth integredig yn nodi nad yw cyflog rhai uwch glinigwyr a staff gofal cymdeithasol yn gymesur i'w rolau a chyfrifoldebau.</p>		
--	--	--

Tabl 2.3. Denu a Recriwtio: materion a chamau gweithredu

<p>Nod: Gwasanaethau niwroddatblygiadol yn cael eu gweld fel lleoedd deniadol i weithio ynddynt a gall gwasanaethau recriwtio staff o ansawdd uchel mewn modd amserol (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020).</p>		
<p>Materion allweddol a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol</p>	<p>Mae camau gweithredu yn y cynlluniau gweithlu lechyd a Gofal Cymdeithasol ac lechyd Meddwl arfaethedig presennol sy'n cefnogi hyn yn cynnwys:</p>	<p>Mae camau gweithredu eraill a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol yn cynnwys:</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer o wasanaethau niwroddatblygiadol wedi profi heriau recriwtio am gyfnodau sylweddol. • Fel yr amlinellwyd yn nhabl 2.1., fel gwasanaethau bach, arbenigol, amlddisgyblaethol, nid oes llwybrau hyfforddi penodedig ar gyfer staff niwroddatblygiadol ac nid yw niwroamrywiaeth bob amser wedi'i gwmpasu'n ddigonol mewn hyfforddiant cychwynnol i weithwyr proffesiynol. • Mae aelodau o staff y gwasanaeth niwroddatblygiadol yn nodi bod prosesau recriwtio'r GIG yn araf ac yn feichus. 	<ul style="list-style-type: none"> • 'Datblygu rhaglen ddenu wedi'i thargedu ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl, wedi'i chefnogi gan Hyfforddi Gweithio Byw a Gofalwn Cymru.'(t. 14, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021). • 'Gweithredu argymhellion sy'n ymwneud â llwybrau gyrfaedd ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl, gan gynnwys cyfleoedd sy'n ymwneud ag ymchwil, academaidd, arweinyddiaeth a gwella fel y disgrifir yn adroddiad dyfodol y gweithlu iechyd meddwl gan y Ganolfan Iechyd Meddwl (Y Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl, 2018) (t. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fel yr amlinellwyd yn nhabl 2.1, dylai camau gweithredu i gau bylchau rhwng y galw a'r capasiti, i leihau'r pwysau ar wasanaethau niwroddatblygiadol a galluogi'r gwaith o ddatblygu rolau mwy gwerth chweil i staff mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol, ynghyd â datblygu cyfleoedd dilyniant o fewn gwasanaethau niwroddatblygiadol, wneud gwasanaethau niwroddatblygiadol yn lleoedd mwy deniadol i weithio ynddynt. • Fel yr amlinellwyd yn nhabl 2.2., dylai cyllid ac ymrwymadau staffio tymor hwy

	<p>15, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021).</p> <ul style="list-style-type: none"> • ‘Gweithredu dull recriwtio dwyieithog sy’n seiliedig ar werthoedd modern ar gyfer yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol...er mwyn sicrhau dull symlach, cyflym, effeithlon, llyfn, hygyrch a chynhwysol o recriwtio’ (t. 23, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020). 	<p>a chamau i sicrhau bod cyflog staff gwasanaeth niwroddatblygiadol yn gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau, wneud gwasanaethau niwroddatblygiadol yn lleoedd mwy deniadol i weithio ynddynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fel yr amlinellwyd yn nhabl 2.1., dylai archwilio'r potensial i ailstrwythuro timau staff gwasanaeth niwroddatblygiadol i adeiladu timau ‘craidd’ cryfach a mwy amrywiol gydag, er enghraifft, mwy o therapyddion, ymarferwyr nyrsio arbenigol a seicolegwyr cynorthwyol, gynyddu maint ac amrywiaeth y ‘gronfa’ o wasanaethau niwroddatblygiadol i recriwtio ohoni.
--	---	--

Tabl 2.4. Modelau gweithlu di-dor: materion a chamau gweithredu

Nod: sicrhau mai ‘modelau gweithlu ambroffesiwn ac aml-asiantaeth fydd y norm’ (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020).		
Materion allweddol a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol	Mae camau gweithredu yn y cynllun gweithlu presennol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cefnogi hyn yn cynnwys:	Mae camau gweithredu eraill a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol yn cynnwys:
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r adolygiad yn nodi bod y strwythur presennol yn canolbwyntio gormod ar y gwasanaeth yn hytrach na'r person (neu'r teulu). Er enghraifft, mae mynediad at gymorth yn dibynnu mwy ar ffactorau fel y cyflwr niwroddatblygiadol penodol sydd gan berson (neu nad yw ganddo) a'i oedran, yn hytrach na'i anghenion; a gall y rhai sydd ag anawsterau sy'n cyd-ddigwydd gael eu ‘bownsio’ rhwng gwasanaethau. Mae'r adolygiad yn nodi bod angen mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, lle, er enghraifft, mae gan blant neu oedolion anawsterau sy'n cyd-ddigwydd. Bydd datblygu dulliau mwy cydweithredol, sy'n 	<ul style="list-style-type: none"> ‘Datblygu cynllun gweithlu aml proffesiynol i gefnogi gweithrediad Law yn Llaw at lechyd Meddwl...Bydd hyn hefyd yn ystyried rolau gwasanaethau darparwyr preifat a gwirfoddol, gwirfoddolwyr a gofalwyr yn ogystal â gwasanaethau statudol’. (t. 25, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020). ‘Troi'r modelau gweithlu sy'n cael eu datblygu drwy Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol yn ganllaw arfer da ar gyfer gweithio integredig’ (ibid). ‘Gweithio gyda phartneriaid i gysoni trefniadau llywodraethu, rheoleiddio a 	<ul style="list-style-type: none"> Mae camau gweithredu yn y cynllun arfaethedig presennol, fel ‘Datblygu a chyflwyno hyfforddiant llythrennedd iechyd meddwl ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal, i ddarparu cymorth mwy di-dor (t. 16, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021) yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, yn hytrach na niwroddatblygiadol, ond maent yn cyfateb i'r camau sy'n ofynnol i adeiladu llythrennedd mewn niwroamrywiaeth. Dylai'r rhain gynnwys, er enghraifft, ymestyn mynediad at hyfforddiant ochr yn ochr â chyfleoedd dysgu proffesiynol gwell a mynediad cyflymach a haws at arbenigedd, drwy fodolau fel y rhaglen CAMHS Mewngymorth. Mae model haenog

<p>canolbwyntio ar y person, yn ei gwneud yn ofynnol cael 'modelau gweithlu di-dor', gydag er enghraifft 'athroniaeth amlbroffesiynol ac amlasiantaethol.' (t. 16, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r adolygiad yn nodi bod amrywiaeth o ffactorau'n rhwystro cydweithio rhwng gwasanaethau, gan gynnwys gwahaniaethau strwythurol, sefydliadol a diwylliannol; cyllid annigonol; a 'ffactorau dynol'. Gall hyn gyfrannu at fylchau yn y ddarpariaeth a all olygu bod pobl yn cael eu 'bownsio' rhwng gwasanaethau, gan danseilio profiadau a chanlyniadau pobl. • Mae'r adolygiad yn nodi bod y cymorth 'o bwys i bawb' ac yn aml mae'n cael ei ddarparu'n fwyaf cost effeithiol gan amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys y trydydd sector. Bydd hyn, ynghyd â ffocws ar ymyrryd yn gynnar, cymorth a chefnogaeth, yn ei gwneud yn 	<p>chofrestru i hwyluso gweithio amlbroffesiwn.' (ibid).</p>	<p>o hyfforddiant, yn debyg i'r Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth Cenedlaethol i Gymru (Awtistiaeth Cymru 2020), presennol yn debygol o fod yn briodol i sicrhau bod gan staff sy'n gwneud rolau gwahanol y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i weithio ar y cyd. Er enghraifft, gall gweithwyr proffesiynol medrus priodol, fel therapyddion lleferydd ac iaith, gyfrannu at asesiadau diagnostig, ond ar ôl cymhwyso, bydd angen hyfforddiant a phrofiad ychwanegol arnynt i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau NICE (Mullis, 2021).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai BPRh ffurfio grwpiau strategaeth amlasiantaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n integredig i bobl â chyflyrau niwroddatblygiadol a'u teuluoedd. • Dylai gwella cydweithio ar lefel weithredol, drwy, er enghraifft, hyfforddiant ar y cyd a chyd-leoli gwasanaethau, greu mwy o
--	--	---

<p>ofynnol, ymhlith pethau eraill, cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o blant ac oedolion niwroamrywiol ar draws y gweithlu ehangach, a'r hyder i weithio gyda'r plant a'r oedolion hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae staff niwroddatblygiadol yn nodi y gall defnyddio arbenigedd yn y system ehangach, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn rhan o dimau niwroddatblygiadol, ychwanegu ehangder at yr asesiad amlddisgyblaethol, a ddylai gynyddu ansawdd asesiad diagnostig. Fodd bynnag, mae hyn yn creu heriau o ran llywodraethu a sicrhau ansawdd y broses asesu diagnostig. 		<p>gyfleoedd ar gyfer trafodaethau rhwng gwahanol wasanaethau a gweithwyr proffesiynol, a helpu i feithrin dealltwriaeth ac ymddiriedaeth.</p>
--	--	--

Tabl 2.5. Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol: materion a chamau gweithredu

<p>Nod: bydd galluoedd digidol a thechnolegol y gweithlu niwroddatblygiadol wedi'u datblygu'n dda ac yn cael eu defnyddio'n helaeth i wneud y gorau o'r ffordd y mae gwasanaethau'n gweithio, er mwyn helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020).</p>		
<p>Materion allweddol a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol</p>	<p>Mae'r camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl presennol arfaethedig sy'n cefnogi hyn yn cynnwys:</p>	<p>Mae camau gweithredu eraill a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol yn cynnwys:</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r adolygiad yn nodi bod cynyddu'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn cynorthwyo arloesi mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol, ac yn creu effeithlonrwydd a chyfleoedd newydd, gan gynnwys cydweithio rhwng gwasanaethau (e.e. mewn cymunedau ymarfer). Mae pandemig COVID-19 wedi cyflymu'r symudiadau hyn – a hefyd wedi datgelu rhai gwendidau o ran sgiliau, gwybodaeth a hyder staff. • Mae'r adolygiad yn nodi bod y defnydd o dechnoleg ddigidol wedi dod â manteision ac mae hyn wedi'i groesawu gan rai 	<ul style="list-style-type: none"> • 'Asesu gallu digidol presennol yn y gweithlu iechyd meddwl, yn erbyn y fframwaith galluogrwydd digidol cenedlaethol i lywio anghenion hyfforddiant.' • Creu rhwydwaith o rolau hyrwyddwyr digidol i ddylanwadu ar drawsnewid gweithlu digidol ac arwain ar hyn (i'w drafod gyda Gofal Iechyd Digidol Cymru a phartneriaid eraill). (t18, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020). 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella mynediad at offer TGCh (oherwydd bod, er enghraifft, diffyg dyfeisiau diogel, wedi llesteirio gallu timau i symud ar-lein); a • Sicrhau bod staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r NDWSP (os caiff ei gyflwyno).

<p>defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, ‘bydd dull cyfunol yn angenrheidiol’ wrth weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, i leihau'r risgiau o eithrio rhai grwpiau (ac mae'r adolygiad yn nodi'r angen i fynd ati i ymgysylltu â rhai grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol) a sicrhau bod ansawdd y gofal mor dda â phosibl a heb ei gyfaddawdu (er enghraifft, gellir gwneud agweddau ar asesiad diagnostig yn well wyneb yn wyneb) (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020).</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae staff mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r rhaglen LLIBPhI, yn nodi bod gan fodelau fel Plattform Niwroamrywiaeth digidol newydd Cymru (NDWSP) y potensial i gyfrannu at welliannau o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd asesu diagnostig a darparu cymorth.		
--	--	--

<ul style="list-style-type: none">Mae addysg a hyfforddiant mewn sgiliau digidol yr un mor bwysig i'r gweithlu niwroddatblygiadol ag ydyw mewn gwasanaethau eraill.		
---	--	--

Tabl 2.6. Addysg a Dysgu Rhagorol: materion a chamau gweithredu

<p>Nod: ‘bydd y buddsoddiad mewn addysg a dysgu ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn darparu’r sgiliau a’r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru yn y dyfodol’ (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020).</p>		
<p>Materion allweddol a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol</p>	<p>Mae camau gweithredu yn y cynlluniau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl presennol arfaethedig sy'n cefnogi hyn yn cynnwys:</p>	<p>Mae camau gweithredu eraill a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol yn cynnwys:</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Fel yr amlinellwyd yn nhabl 2.1., nid oes llwybrau hyfforddi penodedig ar gyfer staff niwroddatblygiadol ac nid yw niwroamrywiaeth bob amser wedi'i gwmpasu'n ddigonol mewn hyfforddiant cychwynnol i weithwyr proffesiynol. • Mae'r adolygiad yn nodi, o ystyried nifer yr achosion o gyflyrau niwroddatblygiadol a'r angen i feithrin ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a'r hyder i groesawu niwroamrywiaeth a mwy o ddulliau sy'n seiliedig ar anghenion a chryfderau, mae angen ymgorffori hyn mewn hyfforddiant 	<ul style="list-style-type: none"> • ‘Gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod addysg yn diwallu anghenion y system iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cynnwys rhaglenni a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg’ (t.30, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020). • ‘Gweithio gyda darparwyr addysg i gefnogi’r gweithlu i ddatblygu a/neu wella sgiliau iaith Gymraeg’ (ibid.). • ‘Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion i ailgynllunio rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer seiciatreg’ (t. 18, ibid.). 	<ul style="list-style-type: none"> • Ac mae'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yn nodi: <ul style="list-style-type: none"> - ‘[dylid] Sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn rhan o’r rhaglenni hyfforddi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol a gynigir i bob aelod staff sy’n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol’ (t. 31, LIC, 2021); ac - ‘Fel rhan o broses cynllunio’r gweithlu [dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG] asesu anghenion hyfforddiant

<p>cychwynnol i weithwyr proffesiynol (mewn meysydd fel iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a chyflogaeth) a rhoi mynediad i hyfforddiant uwch ac arbenigol a/neu fynediad at arbenigedd i'r rhai sydd ei angen (gan gynnwys y rhai yn y trydydd sector).</p> <ul style="list-style-type: none"> Os byddant yn cael eu datblygu, byddai modelau gwasanaeth newydd, fel gwasanaeth niwroddatblygiadol oedolion neu wasanaeth niwroddatblygiadol pob oed, yn creu galwadau newydd am sgiliau, cymwyseddau a hyder yn gweithio gyda grwpiau fel oedolion sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol sy'n cyd-ddigwydd neu bobl ifanc, ac efallai nad yw clinigwyr sydd ar hyn o bryd yn arbenigo mewn un cyflwr niwroddatblygiadol neu grŵp oedran yn meddu arnynt ar hyn o bryd. Er enghraifft, fel y mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Bontio a Throsglwyddo yn nodi: 'Efallai y bydd angen sgiliau ychwanegol ar glinigwyr 	<ul style="list-style-type: none"> 'Comisiynu fframweithiau addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth, aml-broffesiynol mewn meysydd blaenoriaeth ac arbenigol' (t. 20, <i>ibid.</i>). 'Darparu rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus cenedlaethol wedi'u targedu i gefnogi meysydd blaenoriaeth ar draws y gweithlu iechyd meddwl' (tt. 20-21, <i>ibid.</i>). Yn ogystal, canolbwyntiodd camau gweithredu yn y cynllun gweithlu iechyd meddwl arfaethedig presennol ar iechyd meddwl, yn hytrach na chyflyrau niwroddatblygiadol, ond mae'r egwyddorion yn berthnasol (a gellir eu haddasu er mwyn mynd i'r afael â'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i gefnogi pobl â chyflyrau niwroddatblygiadol), er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> 'Mae angen fframweithiau addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Cymru gyfan i gynorthwyo pob agwedd ar nodi a chymorth' ar gyfer 	<p>awtistiaeth eu holl staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi faint o hyfforddiant sydd ei angen yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau'. Dylent hefyd fynd ati a 'Gwneud trefniadau i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael yr hyfforddiant a nodwyd i ddiwallu eu hanghenion gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth' (<i>ibid.</i>).</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn ogystal, fel y mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Bontio a Trosglwyddo yn nodi: 'Rhaid i glinigwyr weithio o fewn ffiniau eu harbenigedd, ond rhaid iddynt sefydlu mecanweithiau i ymgynghori â chydweithwyr yn y tymor byr [i fynd i'r afael â diffygion sgiliau]. Yn y tymor hwy, rhaid i Gyfarwyddwyr Clinigol nodi diffygion sgiliau mewn ymgynghoriad â chlinigwyr a datblygu strategaethau addysgol i gau unrhyw fylchau.' (t. 22, LIC, 2022).
---	---	---

<p>i ofalu am blentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed mewn arbenigeddau pediatrig neu oedolion.’</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r adolygiad yn nodi bod y rhan fwyaf o wasanaethau niwroddatblygiadol yn ei chael yn anodd darparu ‘cynnig rhagweithiol’ Cymraeg, oherwydd diffygion mewn sgiliau Cymraeg. 	<p>plant, pobl ifanc, oedolion niwroamrywiol a'u rhieni neu ofalwyr (addaswyd o t. 19, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021)²</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae angen elfen sylfaenol o lythrennedd niwroamrywiaeth ar bob gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'u haddysg a'u hyfforddiant, gyda hyfforddiant ychwanegol neu uwch ar gyfer rhai grwpiau (addaswyd o t. 19, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021)³. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi gofynion Cymraeg gwasanaethau; mapio capasiti presennol (o ran sgiliau Cymraeg); pennu targedau a datblygu cynlluniau gweithredu i gau bylchau; a monitro a gwerthuso cynnydd wrth gau bylchau (a ddylai helpu i wella capasiti gwasanaethau i ddarparu ‘cynnig rhagweithiol’ Cymraeg) (Comisiynydd y Gymraeg, 2021).
--	---	--

² Darllena'r testun gwreiddiol: ‘Mae angen fframweithiau addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Cymru gyfan i gynorthwyo pob agwedd ar ddarpariaeth **iechyd meddwl**, gan gynnwys meysydd arbenigol.’ (pwyslais wedi'i ychwanegu, t 19, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021).

³ Darllena'r testun gwreiddiol: ‘Mae angen elfen sylfaenol o lythrennedd **iechyd meddwl** ar bob gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'i addysg a'i hyfforddiant, gyda hyfforddiant ychwanegol neu uwch ar gyfer rhai grwpiau er enghraifft meddygon teulu a thimau Adran Achosion Brys (pwyslais wedi'i ychwanegu, t. 19, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021).

Tabl 2.7. Arweinyddiaeth ac Olyniaeth: materion a chamau gweithredu

<p>Nod: bydd arweinwyr mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol 'yn dangos arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol' (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2020).</p>		
<p>Materion allweddol a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol</p>	<p>Mae'r camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl presennol arfaethedig sy'n cefnogi hyn yn cynnwys:</p>	<p>Mae camau gweithredu eraill a nodwyd gan yr adolygiad niwroddatblygiadol yn cynnwys:</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r adolygiad yn nodi bod angen mwy o gydweithio a newid ar draws y system gyfan ac mae 'arwain ar draws ffiniau' (arweinyddiaeth systemau) yn elfen hanfodol o arweinyddiaeth effeithiol mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol (fel y maent mewn gwasanaethau iechyd meddwl) (Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021). • Mae'r adolygiad yn nodi y bydd 'arweinyddiaeth ar gyfer gwella' (ibid) yn hanfodol o ystyried yr heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau niwroddatblygiadol (fel bylchau rhwng y galw a'r capasiti a phroblemau o ran cadw staff a llesiant staff). 	<ul style="list-style-type: none"> • 'Sefydlu amrywiaeth hygyrch o adnoddau a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ar gyfer unigolion a sefydliadau' (t. 33, Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, 2021). • 'Datblygu a gweithredu piblinell rheoli talent gynhwysol ac wedi'i thargedu ar gyfer rolau arweinyddiaeth iechyd meddwl ar lefel sefydliadol, gan gydnabod cyd-destun unigryw a heriau gwasanaethau iechyd meddwl' (ibid.). • 'Neilltuo lleoedd ar gyfer clinigwyr iechyd meddwl fel rhan o'r rhaglen arweinyddiaeth glinigol aml-broffesiynol genedlaethol ehangach.' (ibid.) • 'Sefydlu rhwydwaith arweinwyr iechyd meddwl ar Gwella, er mwyn gwella 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r heriau arweinyddiaeth y byddai modelau niwroddatblygiadol newydd posibl, fel gwasanaethau pob oed, yn eu hachosi (e.e. o ran llywodraethu clinigol a diogelu), a sut y gall arweinwyr gael eu recriwtio (gweler tabl 2.3) a'u cynorthwyo i ateb yr heriau hyn (e.e. drwy ddatblygu safonau cenedlaethol a meithrin cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir ac adeiladu capasiti drwy gymunedau ymarfer). • Nodi'r heriau arweinyddiaeth y byddai dulliau gwasanaeth niwroddatblygiadol newydd posibl, fel mwy o gyfranogiad ar gyfer staff nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth niwroddatblygiadol mewn asesiadau diagnostig, yn eu hachosi, a sut y gellir

<ul style="list-style-type: none"> Fel y noda'r rhaglen LLIBPhI(2), mae 'llywodraethu a chyflawni' a 'newid diwylliannol' yn ddau o'r tri ffactor sy'n sail i'r newid systemig (a gwaith cydweithredol) y mae'r adolygiad yn nodi sydd eu hangen, a bydd y ddau yn gofyn am arweinyddiaeth effeithiol o fewn gwasanaethau niwroddatblygiadol a thu hwnt iddynt (LLIBPhI, d.d.). 	<p>mynediad at yr offer a'r adnoddau tosturiol ac ar y cyd i'r holl staff. (ibid.)</p>	<p>cynorthwyo arweinwyr i ateb yr heriau hyn (e.e. drwy ddatblygu safonau cenedlaethol a chymunedau ymarfer).</p>
--	--	---

Datblygu'r gweithlu ar draws y system ehangach

2.1 Mae'r adolygiad yn argymhell camau gweithredu ar draws y system ehangach i ategu camau i ddatblygu modelau gwasanaeth niwroddatblygiadol (a amlinellwyd uchod). Bydd gwaith Llywodraeth Cymru gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i ddatblygu fframwaith hyfforddi cenedlaethol newydd a darparu hyfforddiant i staff mewn gwasanaethau fel iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, yn bwysig fel sail i hyn. Mae'r adolygiad yn nodi y dylai'r dull o ddatblygu'r gweithlu ar draws y system ehangach ganolbwyntio ar y canlynol:

- **cynllunio:** nodi (i) pa sgiliau a gwybodaeth y bydd eu hangen ar staff (yn unol â fframweithiau hyfforddi cenedlaethol), (ii) bylchau neu ddiffygion sgiliau a (iii) sut yr eir i'r afael â bylchau neu ddiffygion (e.e. drwy hyfforddiant cychwynnol neu ôl-gymhwyso a dysgu proffesiynol, fel cymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol, darllen proffesiynol â ffocws a/neu ddysgu sy'n seiliedig ar weithredu neu ymholi);
- **paratoi:** sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod staff sydd â rolau a chyfrifoldebau gwahanol yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth graidd sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl (e.e. drwy hyfforddiant neu ddysgu proffesiynol);
- **ymatebolrwydd:** sicrhau bod gan staff fynediad hawdd at arbenigedd pan fydd ei angen arnynt (e.e. pan nad oes ganddynt hyder neu'n dod ar draws mater sy'n mynd y tu hwnt i'w hyfforddiant), drwy er enghraifft fynediad at adnoddau ar-lein a/neu gyngor ac ymgynghori gan bobl sydd â sgiliau uwch ac arbenigol (fel staff mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol); a
- **monitro a gwerthuso:** monitro a nodi bylchau mewn sgiliau a gwybodaeth a gwendidau mewn systemau a phrosesau ar gyfer darparu mynediad hawdd at arbenigedd, er mwyn llywio camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw (addaswyd o [LIC, 2015](#)).

3. Cyfeiriadau

Awtistiaeth Cymru (2020). Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth Cenedlaethol i Gymru, [Gwefan Awtistiaeth Cymru](#)

Cleaton, M, A. a Kirby, A. (2018) 'Why Do We Find it so Hard to Calculate the Burden of Neurodevelopmental Disorders', *Childhood Development Disorders*. 4:10.

Mullis, J.A. (2021) 'How Do Speech and Language Therapists Develop Competence to Work with Children with Autism Spectrum Disorders?' *Doethuriaeth Broffesiynol Doethur mewn Astudiaethau Iechyd*.

Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2020). *Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, [Gwefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru](#)

Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2021). *Datblygu Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Dogfen Ymgynghori*. Dogfen heb ei chyhoeddi.

Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2) (d.d.) 'The T4CYP Journey So Far', (cyflwyniad heb ei gyhoeddi).

Llywodraeth Cymru (2015) *Asesiad o ofynion datblygu'r gweithlu anghenion addysgol arbennig (AAA)*, [Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2019) *Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer Alinio a Datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth a Niwroddatblygiadol*, [Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2021) *Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth*, [Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022) *Y Canllawiau Pontio a Throsglwyddo*, [Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Comisiynydd y Gymraeg (2021) *Recriwtio: Ystyriaethau'r Gymraeg*, [Gwefan Comisiynydd y Gymraeg](#)

Young, S., Asherson, P., Lloyd, T., Absoud, M., Arif, M., Colley, W.A., Cortese, S., Cubbin, S., Doyle, N., Morua, S.D., Ferreira-Lay, P., Gudjonsson, G., Ivens, V., Jarvis, C., Lewis, A., Mason, P., Newlove-Delgado, T., Pitts, M., Read, H., van Rensburg, K., Zoritch, B., Skirrow, C. (2021) 'Failure of Healthcare Provision for Attention-Deficit/Hyperactivity Disorder in the United Kingdom: A Consensus Statement.' *Front Psychiatry*. 2021 Mawrth 19;12:649399. doi: 10.3389/fpsy.2021.649399. PMID: 33815178; PMCID: PMC8017218.